



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 27/9/2016 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday 27/9/2016 at 7pm.

Presennol / Present: Gareth W Roberts OBE, Robert Whitfield, Myrddin W Owens, Helen Hughes, Meg Roberts, John Byast, Gareth Owen, Gordon Warren, Cyng/Cllr Wil Hughes

Yn bresennol / In attendance: Carli Evans-Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translation)

Ymddiheuriadau / Apologies: Mike Roberts, Wayne Jones, Cyng/Cllr Aled Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

1 Croeso / Welcome

Cadeirwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts ac fe groesawyd rheini oedd yn bresennol.

Nodwyd bod llythyr o ymddiswyddiad wedi ei dderbyn gan Wayne Jones, nid yw yn gallu ymrwymo i'r Cyngor cymaint ag y hoffai ac felly am roi cyfle i rywun arall gael bod yn Aelod. Y clerc i anfon nodyn o ddiolch ato am ei gyfraniad.

Bu newyddion trist iawn am brofedigaeth Gwynn Jones, Cadeirydd y Cyngor. Bu colled enfawr ar ei ol; roedd yn aelod cydwybodol a gweithgar iawn ac roedd y Cyngor yn ddiolchgar iawn iddo am ei holl waith a'i ymrwymiad. Mae lythyr o gydymdeimlad eisioes wedi ei anfon at Mrs Jones a'r teulu. Cafwyd munud o dawelwch er cof.

Nodwyd bod cyn aelod a chyn-gadeirydd y Cyngor, Mrs Elizabeth Connolly wedi marw yn ddiweddar yn dilyn cyfnod o salwch.

The meeting was chaired by Gareth W Roberts and all present were welcomed.

It was noted that a letter of resignation had been received from Wayne Jones. He cannot commit to the Council as much as he would like to and thus would rather someone else have the opportunity to become a Member. The clerk to write him a letter of thanks for his contribution.

The council were informed of the sad news of the passing of Gwynn Jones, the Chair of the Council. He will be sorely missed; he was a conscientious and hard working member and the Council were very grateful to him for all his work and commitment. A letter of sympathy has already been sent to Mrs Jones and family. A minute silence was held in memory.

It was noted that a past member and chair of the Council, Mrs Elizabeth Connolly had also passed recently following a period of ill health.

2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Cymerdwywyd y cofnodion yn gywir gan Myrddin Owens, eilio gan Gordon Warren.

The minutes were approved as a true record by Myrddin Owens, seconded by Gordon Warren.

3 Materion yn codi / Matters arising

3.1 Fferm Solar Farm

Mae'r mater wedi ei drafod yn y gorffennol ac mae'r Cyngor yn cefnogi Cyngor Cymuned Llanbadrig. Bydd Cyng Wil Hughes a Cyng Richard Jones yn datgan diddordeb ar y cais. Cytuno gofyn i Cyng Aled Jones gynrychioli'r ardal a siarad ar ran y cymunedau.

The matter has been discussed in the past and the Council support Llanbadrig Community Council. Both Cllr Wil Hughes and Cllr Richard Jones have declared an interest on the application. Agreed to ask Cllr Aled Jones to represent the area and speak on behalf of the communities.

3.2 Swyddfa Bost / Post Office

Bydd Swyddfa Bost yn agor mewn partneriaeth a Blakemore (Spar) yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Dim ond yn yr wythnos diwethaf cafodd cytundeb ei arwyddo ac felly dim ond pryd hynny gwnaed datganiad i'w wasg er mwyn sicrhau nad oedd y cyhoedd yn cael eu cam arwain eto. Diolchwyd I Gareth W Roberts a Myrddin Owens am eu rhan blaenllaw yn y trafodaethau.

I'r rheini oedd ddim yn aelodau o'r Cyngor pan ddaeth y mater i sylw i ddechrau, cafwyd grynoded o'r cytundebau a thrafodaethau cychwynnol, a pham nad oedd symud ymlaen a hwy.

The Post Office will open in partnership with Blakemore (Spar) early in the new year. It is only in the last week that the contract has been signed and as such it was only then that a statement was made to the press in order to ensure that members of the public were not once again misled. Gareth W Roberts and Myrddin Owens were thanked for their integral part in the discussions.

For those who were not members of the Council when the matter first came to the Council's attention, a summary of the initial agreements and discussions were given and the reasons why they did not progress.

3.3 Maes Parcio Porth Llechog / Bull Bay Car Park

Cadarnhawyd mai CSYM sydd berchen ar y maes parcio, a bod gan unigolion yr hawl i barcio cychod yno. Y clerch i gysylltu a CSYM eto i godi ymwybyddiaeth.

It was confirmed that the ownership of the car park lies with IACC and that individuals have the right to park boats there. The clerk to contact IACC again to raise awareness.

3.4 Ynys Ynni / Energy Island

Deallwyd bod aelodaeth o'r bwrdd yn cael eu henwebu o Gaerdydd. Nid oes cadarnhad fyth am bwy sydd wedi'w cynrychioli ar y bwrdd.

It was understood that membership of the board are nominated from Cardiff. There is still no confirmation as to who are members.

4 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

4.1 Menter Mon – Cafwyd cyfarfod gyda Menter Mon a chynrychiolwyr ardaloedd eraill ynglyn a dyfodol y llyfrgelloedd a'r astudiaeth sydd wedi'w gomisiynu ganddynt.

Menter Mon – a meeting was held with Menter Mon and representatives from other areas regarding the future of the libraries and the study that they have commissioned.

4.2 Sesiwn Gwybodaeth Cynllunio – nodwyd bod Gordon Warren a Bob Whitfield wedi bod i sesiwn gwybodaeth ac mae hwy oedd yr unig rai yn bresennol.

Planning Information Session – it was noted that Gordon Warren and Bob Whitfield had attended a session and that they were the only ones present.

4.3 Trefi Mon – Trafodwyd cyswllt ar gyfer y CCTV i orsaf yr heddlu yn Llangefni. Cytuno i bethau aros fel ag y maent ar hyn o bryd. Cafwyd cyflwyniad gan Action Renewables sydd wedi eu penodi gan Menter Mon i gwblhau astudiaeth ar adeiladau cymunedol, gan gynnwys swyddfeydd y Cyngor, er mwyn edrych ar sut gall costau ynni gael eu lleihau, neu hyd yn oed gwneud arian i'r corff sydd berchen ar yr adeilad.

Trefi Mon – The CCTV link to the Llangefni Police Station was discussed and it was agreed to leave things as they were. A presentation was given by Action Renewables who have been appointed by Menter Mon to complete a survey on community buildings, including council offices, to see how energy costs can be reduced, or even make money for the organisation.

4.4 Partneriaeth Cyngorau Gogledd Mon – Cafwyd cyfarfod gyda swyddogion Horizon – gweler Wylfa Newydd (11)

North Anglesey Councils Partnership – a meeting was held with Horizon's officers – see Wylfa Newydd (11)

5 Cynllunio / Planning

Nid oedd ceisiadau i'w ystyried. Nodwyd penderfyniadau'r Cyngor Sir fel y ganlyn /
There were no applications to consider. The County Council's decisions were noted as follows:

- 7 Maes Ednyfed – Caniatad/Granted
- 53 Maes Llwyn - Caniatad/Granted
- Corbiere – Caniatad/Granted
- 17 Mona Street – Caniatad/Granted

6 Adroddiad Is-bwyllgor y Fynwent / Cemetery Committee Report

Dosbarthwyd gopi o gofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor ynghyd a chopi o reolau ac amodau ar gyfer y wal goffa. Pawb oedd yn bresennol yn hapus i'w derbyn.

A copy of the minutes of the committee's last meeting was distributed to those present along with a copy of the rules and conditions for the memorial wall. All present were happy to adopt.

7 Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb o gyfarfodydd diwethaf y Pwyllgor Cyllid gan Myrddin Owens. Nodwyd bod cyfarfod Cyngor Llawn wedi'w drefnu ar gyfer nos Fawrth Awst 23 ond gan nad oedd cworwm penderfynnwyd cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid gyda Meg Roberts hefyd yn bresennol. Cyflwynwyd argymhellion y cyfarfod hwnw.

Nodwyd bod gwaith eisioes wedi dechrau ar y gofrestr asedau. Mae copiau wrth gefn o ddata eisioes wedi eu gwneud a bydd hyn yn digwydd yn reolaidd o hyn allan. Dosbarthwyd restr o daliadau rheolaidd er gwybodaeth

Mae angen penodi aelod annibynnol i'r pwyllgor i wirio cysoniadau banc. Enwebwyd Meg Roberts. Bydd angen penodi John Roberts yn archwilydd mewnol yn swyddogol (cyfarfod blynyddol). Cadarnhawyd bod rol y Clerc a'r Swyddog Ariannol wedi'i gyfuno yn Amlwch.

Roedd y Cyngor Llawn yn hapus i'r Pwyllgor Cyllid drafod Rheolau Sefydlog ac adrodd yn ol gydag arghymhellion.

Trafodwyd asesiad risg ar adeilad Swyddfeydd y Cyngor gan gynnwys mynediad i'r anabl i'r prif fynedfa. Cytuno gofyn am bris i gwblhau asesiad a gwelliannau i'r fynedfa. Mae A Ganderton yn cwblhau asesiadau rheolaidd ar y caeau chwarae, mae pris wedi ei dderbyn ar gyfer cwblhau asesiad o gofebau a beddfeini yn y fynwent.

Teimlai'r Pwyllgor Cyllid y dylai Cyng Richard Jones dalu unrhyw gostau ynghlwm a'r cyfarfod a gafodd eu ddileu yn fyr-rybydd ac yn ddi-reswm.

A summary of the last Finance committee meetings was given by Myrddin Owens. It was noted that a Full Council meeting had been arranged for Tuesday 23/8/2016 but as there had not been a quorum, it was decided to hold a meeting of the finance committee with Meg Roberts also present. The recommendations of the meeting were presented.

It was noted that work has already started on the asset register. Backup copies of data have been produced and will be completed on a regular basis from now on. A list of regular payments was distributed to those present for information.

There is a need to appoint a member, independent to the finance committee, to check the bank reconciliations. Meg Roberts was nominated for the role. John Roberts will need to be formally appointed as the internal auditor (AGM). It was confirmed that the roles of the clerk and RFO were combined at Amlwch.

The Full Council were happy for the Finance Committee to discuss the Standing Orders and report back with recommendations.

The risk assessment for the council building was discussed including disabled access to the main door. Agreed to ask for quotes to complete an assessment and improvements to the entrance. A Ganderton completed regular checks of the play areas, a price has been accepted for completing a safety survey of the memorials and headstones in the cemetery.

The committee felt that Cllr Richard Jones should pay any costs related to the meeting that was cancelled at short notice and without reason.

8 Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol / Adopting Financial Regulations

Roedd pawb yn bresennol wedi cael cyfle i ddarllen y rheoliadau ac yn hapus i dderbyn argymhellion y Pwyllgor Cyllid. Mabwysiadwyd y ddogfen bolisi.

All present have had the opportunity to read the regulations and were happy to accept the recommendations of the Finance Committee. The policy document was adopted.

9 Toiledau Cyhoeddus / Public Toilets

Les 60 mlynedd sydd ar gynnig ar gyfer yr adeiladau. Cytuno trafod ymhellach petai trosglwyddiad asedau yn bosib. Mae disgwyl ymateb gan Cyng Richard Jones er bod CSYM yn pwysu am ymateb. Pawb yn bresennol yn fodlon disgwyl am ymateb Cyng Richard Jones cyn trafod ymhellach. Sut gall CSYM roi mwy o bwysau ar gynghorau lleol a rhannu cyfrifoldebau pan maent yn gwario cyn gymaint o arian ar staffio dros dro?

Cytuno disgwyl ymateb Cyng Richard Jones, ac ysgrifennu at CSYM yn nodi hynnu. Mae'r Cyngor eisioes wedi gofyn am drosglwyddo asedau.

A 60 year lease is currently on offer for the buildings. Agreed to discuss further should an asset transfer be possible. A response from Cllr Richard Jones is awaited although the IACC is pressing for answers. All present were happy to wait for Cllr Richard Jones before further discussion. How can IACC put so much more pressure and share responsibilities when they spend so much on temporary staff?

Agreed to wait on Cllr Richard Jones and write to IACC to confirm this. The Council have already asked for asset transfer.

10 Lyfrgelloedd / Libraries

Mae gweithdy wedi'i drefnu 10/10/16 gyda'r ymgynghorydd sydd wedi'w benodi gan Menter Mon. Y prif bwynt sydd rhaid cofio yw pwy sydd yn gyfrifol am gostau cynnal y gwasanaeth – pobl Amlwch ynteu pobl Mon (drwy CSYM). Dim ond £11k fyddai'r Cyngor Sir yn ei arbed – byddai hyn yn godiad sylweddol ym mhrieseb y Cyngor Tref. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr Sirol fynd yn ol at CSYM a thrafod ymhellach.

A workshop has been arranged for 10/10/16 with the consultant appointed by Menter Mon. The main point to remember is who is responsible for maintaining the service – the people of Amlwch or the people of Anglesey (through IACC). IACC will only save £11k – this would be a substantial increase in the Town Council's precept. The County Councillors were asked to go back to IACC to discuss further.

11 Wylfa Newydd (PAC2)

Cadarnhawyd bod cyfarfod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wedi gynnal gyda swyddogion Horizon a bod nifer o bwyntiau wedi'w codi megis:

- Diffyg gwelliannau i'r A5025

- Gwersyll yn Amlwch
- Diffyg datblygiad ar Safle Shell, Rhosgoch
- Diffiniad y cwmni o 'berson lleol' (taith 90 munud i'r gwaith)
- Diffyg parch i'r iaith Gymraeg

Nodwyd bod Cyng Wil Hughes wedi ymddiswyddo o'r Grwp Rheoli (CSYM) gan nad oedd yn teimlo bod y Cyngor yn gweithio'n ddigonol i ddiogelu cymunedau nac yn gwrandao ar y bobl sydd yn byw yn yr ardaloedd hynnu sydd am gael eu heffeithio fwyaf gan y datblygiad.

Mae'r un pryderon yn cael eu nodi tro ar ol tro. Nodwyd pump prif bwynt a fydd yn cael eu cynnwys ar ymateb y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad yn unol a'r theimlad y gymuned.

- 1) Nid oes gwrthwynebiad i'r tai ym Madyn – mae caniatad cynllunio eisioes wedi ei sicrhau. Mae cwestiwn wedi codi fodd bynnag pam nad yw'r tai hynnu yn dod yn dai cymdeithasol unwaith na fydd Horizon eu hangen mwyach.
- 2) A2025 o Gemaes i Gaergybi yn cael sylw ond y lon o Gemaes i gyfeiriad Amlwch yn iawn? Mae'r Cyngor, a chefnogaeth y gymuned, yn gwrthod sylwadau Horizon nad oes angen gwelliannau i'r lon o Gemaes tuag at gyffordd Rhosgoch.
- 3) Mae'r Cyngor, a'r gymuned, yn erbyn datblygu gwersyll dros dro yn Amlwch (tir Grogan). Byddai mwy o fudd i'r Amlwch a'r ardal lleol i ddatblygu safle Rhosgoch (tir llwyd) fel pentref gwyliau megis Centre Parcs. Byddai hyn yn creu busnes yn ardal Amlwch ac yn creu hyd at 80 o swyddi ychwanegol yn yr ardal. Roedd pryderon ynglyn a pholisiau CSYM yn erbyn datblygu'r safle.
- 4) Roedd pryder bod y cwmni yn parhau i ddatgan bod pobl sydd yn gorfod theithio hyd at 90 munud i'w gwaith yn bobl lleol.
- 5) Roedd pryderon mawr nad oedd CSYM yn gwneud digon i ddiogelu y cymunedau agosaf at y datblygiad.

Cytuno creu deiseb a threfnu cyfarfod cyhoeddus yn y dref cyn gynted a phosib er mwyn trafod pryderon y gymuned ymhellach.

it was confirmed that a meeting of the North Anglesey Councils Partnership had been held with officers from Horizon and that a number of points had been discussed including:

- *Lack of improvements to the A5025*
- *Camp in Amlwch*
- *Lack of development on the Shell Site, Rhosgoch*
- *The company's definition of 'local' people (90 minute commute)*
- *Lack of respect to the Welsh language*

It was noted that Cllr Wil Hughes had resigned from the IACC Ruling Group as he did not feel that the Council was working sufficiently to safeguard communities, or listening to the people to live in those areas that will be most affected by the development.

The same concerns are noted time and time again. Five main points were noted that would be included in the Town Council's response to the consultation in line with the community's views:

- 1) *There is no objection to the houses at Madyn – planning permission has already been secured. The question has been asked however as to why those houses are not to become social housing when Horizon no longer need the accommodation..*
- 2) *A5025 from Cemaes to Holyhead being addressed but the road from Cemaes to Amlwch is ok? The Council, with the support of the community, object to Horizon's comments that no improvements are needed from Cemaes toward the Rhosgoch junction.*
- 3) *The Council, and the community, are against developing a temporary camp in Amlwch (Grogan Fields). It would be of greater benefit to Amlwch and the local area to develop Rhosgoch site (brown field site) as a holiday village such as Centre Parcs. This would create business in Amlwch and also create up to 80 additional jobs. There were concerns regarding IACC's policies against developing the site.*
- 4) *There were concerns that the company still state that people having to commute up to 90 minutes to work are 'local'.*
- 5) *There were grave concerns that IACC were not doing enough to safeguard those communities nearest the development.*

Agreed to produce a petition and arrange a public meeting in the town as soon as possible to discuss the communities' concerns.

12 Gohebiaeth / Correspondence

- 12.1 Cyngor Sir – Adran Gwastraff / County Council – Waste Department
Cadarnhad eu bod wedi trefnu digwyddiad gwybodaeth ychwanegol ar gyfer newidiadau i'r drefn casglu gwastraff nos Iau Medi 29 yn Llyfrgell Amlwch.

Confirmation as received that they have arranged an additional information session regarding the changes to refuse collection to be held at the Library, Amlwch on Thursday September 27.

- 12.2 Fideo'r Ombwdsmon / Ombudsman's Video
Mae angen i'r aelodau arwyddo i gadarnhau eu bod wedi gwyllo'r fideo.
Members are to sign to confirm that they have seen the video.

13 Unrhyw fater arall / Any other business

Dim/None

14 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth 25/10/2016 am 7yh.
The next meeting will be held Tuesday evening 25/10/2016 at 7pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 20:35 o'r gloch. / *The meeting closed at 20:35pm.*

CET10/2016